

**ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL
CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

RHAGFYR 2020

**CYNLLUN CRYNO
CYFFREDINOL**

Er gwaethaf yr anawsterau a achosir gan bandemig Covid-19, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei ymrwymiad i ddatblygu addysg Gymraeg.

Mae cynnig i ad-drefnu ysgolion er mwyn sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i gymeradwyo, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau bod yr ysgol hon yn gallu agor yn ôl y bwriad ym mis Medi 2021. Mae corff llywodraethu dros dro wedi'i sefydlu, ac roedd pob cais a dderbyniwyd gan y Cyngor ar gyfer derbyn i'r dosbarth meithrin ym mis Medi 2021 yn llwyddiannus. Gellir gwneud ceisiadau nawr am leoedd yn y grŵp blwyddyn Derbyn.

Bu dau ddarparwr nas cynhelir yn llwyddiannus yn eu ceisiadau tendro i ddarparu addysg Cyfnod Sylfaen, a bydd hyn yn helpu i gwrdd â'r diffyg lleoedd meithrin Codi'n 3 y mae'r Cyngor wedi ei wynebu ar adegau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mae darpariaethau Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi eu cynllunio, a bydd gwaith pellach ar yr agweddau hyn yn symud ymlaen i 2021.

Darparu gwell cyfleusterau yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn brosiect blaenoriaeth o fewn rhaglen Band B y Cyngor, ac mae gwaith bellach wedi dechrau ar y safle. Bydd y prosiect hwn yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf o £18.7m.

Canlyniad 1: Mwy o blant 7 mlwydd oed yn cael eu haddysgu yn Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Cadarnhaodd dychweliad CYBLD Ionawr 2020 fod 103 o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cynnydd o'r 91 mewn nifer yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli 5.17% o werth cyffredinol y garfan o'i gymharu â 4.52% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd yn cynyddu, a ddangosir gan yr angen i greu darpariaeth ychwanegol ar gyfer carfan Derbyn Medi 2020. Roedd y capasiti ychwanegol hwn yn bosibl drwy sefydlu "dosbarth swigen" 15 lle yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael.

Ym mis Medi 2020, roedd 49 o blant a oedd gynt yn mynychu grwpiau meithrin ledled Casnewydd yn gymwys i ddechrau yn yr ysgol, ac aeth 29 o'r rhain (cyfwerth â 59%) ymlaen i ysgolion Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 39 allan o 52 o blant ym mis Medi 2019 (sy'n cyfateb i 75%). Priodolwyd y gyfradd bontio is i amrywiaeth o ffactorau, un ohonynt yn lleoliad ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â grwpiau meithrin. Er enghraifft, symudodd yr holl blant sy'n mynychu Cylch Meithrin Brynglas ymlaen i Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ar yr un safle. Fodd bynnag mewn lleoliadau eraill roedd y gyfradd bontio lawer is. Mae staff y cylch wedi rhoi gwybodaeth i rieni am fanteision bod yn ddwyieithog ac wedi annog ymweliadau i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol, fodd bynnag mae rhai rhieni wedi dweud eu bod wedi dewis Cylch oherwydd cyfleustra yn hytrach na dewis iaith. Tynnodd teulu arall eu holl blant yn ôl o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i anallu i gynorthwyo gyda dysgu gartref yn ystod pandemig Covid-19. Yn draddodiadol, problem arall fu diffyg lleoedd i blant sy'n tynnu at 3 oed mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Dylai cyflwyno dau leoliad cyfrwng Cymraeg newydd nas cynhelir yn 2021 gael effaith gadarnhaol ar hyn.

Ar hyn o bryd, mae 5 o ddarpariaethau Cylch Meithrin ledled Casnewydd - Cylch Meithrin Y Delyn, Cylch Meithrin Brynglas, Cylch Meithrin Dros Yr Enfys (Dechrau'n Deg), Cylch Meithrin Dewin Disglair (Dechrau'n Deg) a Cylch Meithrin Chuckles (sy'n cael ei weithredu fel sesiwn o fewn meithrinfa ddydd). Rhagwelir y bydd Cylch Meithrin ychwanegol yn agor yng Nghaerllion o fis Ionawr 2021. Ym mis Tachwedd 2020, mae cyfartaledd wythnosol o 11 o'r 19 lle sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn *Cylch Meithrin Brynglas*, a 15 o'r 38 lle sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn *Cylch Meithrin Y Delyn*. Mae'r ddarpariaeth yng Nghylch Meithrin Chuckles yn gweithredu o fewn y sesiwn feithrin foreol arferol, ac yn hyn o beth, mae bob plentyn sy'n mynychu sesiynau bore yn mynychu drwy'r wythnos. Mae 22 o blant ar hyn o bryd yn mynychu yn y bore gydol yr wythnos. O ran mynediad i ddarpariaethau Dechrau'n Deg, mae 14 o blant wedi'u dyrannu ar hyn o bryd i *Cylch Meithrin Dros Yr Enfys* a 15 wedi'u dyrannu i *Cylch Meithrin Dewin Disglair*.

Bu *Cylch Meithrin Brynglas* a *Cylch Meithrin Y Delyn* yn llwyddiannus yn eu tendr a bydd y ddau leoliad yn gallu cynnig Addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen o fis Ebrill 2021.

Sefydlwyd uned drochi sylfaenol bwrpasol ym mis Medi 2019 yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon. Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, cyrchodd 7 disgybl yr uned, gyda 4 ohonynt yn ddiweddarach yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'w grwpiau carfan priodol. Mae'r 3 disgybl arall yn dal i gael mynediad i'r uned drochi oherwydd oedi oherwydd Covid-19.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Mae'r cynnig i ad-drefnu ysgolion i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i bennu a bydd yr ysgol nawr yn agor ym mis Medi 2021;
- Comisiynwyd dau leoliad nas cynhelir i ddarparu addysg feithrin y Cyfnod Sylfaen o fis Ebrill 2021;
- Bydd Cylch Meithrin newydd yn agor yng Nghaerllion yn gynnar yn 2021.
- Bwriedir agor tair darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg newydd ar draws y Ddinas.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Penderfynwyd ar y cynnig i sefydlu ysgol Gymraeg newydd yng Nghasnewydd ym mis Mehefin 2020, ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau bod yr ysgol hon yn gallu agor yn ôl y bwriad ym mis Medi 2021. Mae corff llywodraethu dros dro bellach wedi'i sefydlu, a bydd yn gweithio gyda'r Cyngor i baratoi'r trefniadau ar gyfer yr ysgol newydd – gan gynnwys cytuno ar enw a phenodi Pennaeth.

Bydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion Meithrin a Derbyn yn unig yn y flwyddyn gyntaf. Mae'r ffenestr derbyn ceisiadau ar gyfer y dosbarth meithrin wedi agor a chau, gyda 5 cais dewis cyntaf wedi eu derbyn. Agorodd y ffenestr gwneud cais ar gyfer y dosbarth Derbyn ym mis Tachwedd 2020 a bydd ar agor tan fis Ionawr 2021. O ran adeilad yr ysgol egin, mae rhaglen waith gan Newport Norse yn awgrymu y bydd gwaith yn dechrau ar y safle ym mis Chwefror / Mawrth 2021, a rhagwelir dyddiad cwblhau disgwylidig o 2 Gorffennaf 2021.

Ym mis Mawrth 2020, comisiynodd y Cyngor ddau gylch chwarae Cymraeg i ddarparu addysg Feithrin y Cyfnod Sylfaen. Y bwriad i ddechrau oedd y byddai hyn yn dechrau ym mis Medi 2020, ond mae'r cyfyngiadau ynghylch hyfforddiant a chymorth ar gyfer lleoliadau newydd oherwydd pandemig Covid-19, wedi golygu bod y broses o ddarparu addysg feithrin yn y lleoliadau hyn wedi'i gohirio tan fis Ebrill 2021. Mae'r lleoliadau'n derbyn hyfforddiant a chymorth rhithwir. Mae'r contract am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn am flwyddyn ychwanegol.

Mae Mudiad Meithrin yn sefydlu grŵp meithrin newydd yng Nghaerllion o fis Ionawr 2021. Mae hon yn ardal sydd yn hanesyddol wedi gweld galw cyfyngedig am addysg Gymraeg; fodd bynnag, ochr yn ochr â sefydlu'r egin ysgol, rhagwelir y bydd y ddarpariaeth hon yn cael derbyniad da ac y bydd trefniadau etifeddol yn parhau unwaith y bydd yr ysgol newydd yn symud i'w lleoliad parhaol.

Mae darpariaethau Dechrau'n Deg newydd wedi'u cynllunio ar gyfer Pilgwenlli, y Betws a Ringland. Mae prosiect Pilgwenlli wedi'i ohirio am bedwar mis oherwydd pandemig Covid-19; fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Chwefror 2021. Mae'r cwblhau a'r trosglwyddo ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Awst 2021, a bydd yn cynnig lle ar gyfer hyd at uchafswm o 26 o blant 2-3 oed neu hyd at uchafswm

o 31 o blant 3-12 oed. Disgwyllir i prosiect y Betws ddechrau ar y safle ym mis Mai 2021, a disgwyllir iddo gael ei gwblhau ym mis Medi 2021, gan ddarparu lle ar gyfer hyd at uchafswm o 29 o blant 2-3 oed neu hyd at uchafswm o 36 o blant 3-12 oed. Mae prosiect Ringland ar y cam dichonoldeb ac mae wedi ei seilio ar ehangu'r ddarpariaeth bresennol o fewn canolfan bresennol Ringland. Bydd angen i'r darpariaethau ym Mhilogwenlli a'r Betws fod wedi'u cofrestru gydag AGC, ac nid yw hyn yn debygol o ddechrau tan ar ôl trosglwyddo.

Mae tîm Dechrau'n Deg eisoes wedi datblygu perthynas ragorol ag ysgolion cynradd ac mae prosesau pontio cadarn ar waith. Er bod Covid-19 wedi cymhlethu hyn, mae trefniadau 'Covid-ddiogel' unigol wedi'u rhoi ar waith gyda phob lleoliad er mwyn sicrhau y gall y broses bontio fynd rhagddi. Bydd adolygiad peilot o hyn yn cael ei gynnal yn nhyrnor y gwanwyn 2021.

Creodd y Cyngor swydd tymor penodol newydd Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg yn gynnar yn 2020, gydag unigolyn yn dechrau yn y rôl hon ym mis Chwefror 2020. Yn anffodus, dechreuodd y cyfnod clo cyntaf mewn ymateb i Covid-19 yn fuan ar ôl hyn, ac o ganlyniad, ni allai cyfran fawr o'r gwaith arfaethedig fynd rhagddo, yn benodol o ran ymgysylltu â grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, cafodd cynnwys "Bod yn Ddwyieithog" sef llenyddiaeth Derbyn i Ysgolion ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu'r cwestiynau, yr ymholiadau a'r pryderon hynny a gafwyd gan gymunedau sy'n llai tebygol o ddewis addysg Gymraeg (e.e. cymunedau BAME). Mae'r ddogfen wedi'i diweddarau hefyd yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg Gymraeg er mwyn cydnabod Casnewydd yn well fel dinas amlieithog ac apelio at drigolion sy'n byw yn ardal lleoliad parhaol yr ysgol newydd. Ers hynny, mae'r swyddog hwn wedi gadael y Cyngor i ddychwelyd i fyd addysg ac mae ystyriaeth yn parhau o ran sut i symud ymlaen gyda'r rôl hon.

Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth bontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Yn 2019, cafodd 76 o ddysgwyr Blwyddyn 9 (4.29% o'r garfan) eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) o'u cymharu â 71 disgybl a aseswyd yn Gymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd ynghynt (2016) pan roeddent ym Mlwyddyn 6.

Ym mis Medi 2020, trosglwyddodd 78 o ddisgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg Casnewydd i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, gan gynrychioli 96.2% o'r disgyblion yn y garfan. Mae hyn yn cymharu â 99% o ddisgyblion a drosglwyddodd o'r ysgolion cynradd Cymraeg i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2019.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, cyrchodd 1 disgybl gyfleusterau trochi cyn trosglwyddo'n llwyddiannus i'w grŵp carfan cywir. Yn ogystal, mae dau ddisgybl o grŵp carfan Blwyddyn 7 2020/21 ar hyn o bryd yn cyrchu darpariaeth drochi o fewn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwyd yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi penodi Swyddog Cymorth Iaith i alluogi hwyluso trochi o fewn yr ysgol, ac mae dau ddisgybl Blwyddyn 7 yn defnyddio'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.
- Mae'r Swyddog Cymorth Iaith hefyd yn cefnogi disgyblion o grwpiau oedran hŷn a aeth drwy drochi mewn lleoliad gwahanol mewn blynyddoedd blaenorol.
- Cynhelir cyngerdd Pontio Nadolig rhithwir ym mis Rhagfyr 2020, gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion cynradd y clwstwr a disgyblion Blwyddyn 7 o Ysgol Gyfun Gwent IS Coed yn cymryd rhan gyda'i gilydd.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwyd yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Bu'r ddau ddisgybl Blwyddyn 7 sy'n defnyddio darpariaeth drochi yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar hyn o bryd cyn hynny yn mynychu yr uned drochi gynradd yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon. Fodd bynnag, cwtogwyd ar eu hamser yn y ddarpariaeth hon oherwydd pandemig Covid-19, ac o ganlyniad, fe gollon nhw lawer iawn o'r dysgu hwn cyn mis Medi 2020. Felly, bydd eu trochi'n cael ei ymestyn dros gyfnod hwy. Collodd disgyblion hŷn a aeth drwy'r broses drochi yn flaenorol rai o'u sgiliau Cymraeg ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt erbyn hyn.

Mae gweithgareddau pontio clwstwr yn dechrau ym Mlwyddyn 5 fel bod rhieni a disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed. Mae'r cyfnod pontio wedi parhau eleni, gyda'r holl weithgareddau'n digwydd yn rhithwir yn hytrach na thrwy ymweliadau corfforol â'r ysgol uwchradd, gan gynnwys athrawon yn cyflwyno eu hunain drwy gyswllt fideo. Mae fideos newydd yn dangos y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion a rhieni yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Mae Covid-19 wedi cael effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Er nad yw hyn o bosibl yn annisgwyl mewn ardal lle mai ychydig iawn o rieni'n siarad Cymraeg eu hunain, mae Penaethiaid cynradd wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn safonau llafaredd - yn enwedig yn y Blynnyddoedd Cynnar - a diffyg hyder gan ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion. Mae cyfleoedd dysgu cyfunol wedi cael eu darparu ac yn cael eu darparu, ond mae llai o adnoddau a chynlluniau darllen ar-lein ar gael yn Gymraeg, sydd felly wedi rhoi rhagor o bwysau ar staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae Menter Iaith Casnewydd yn cydweithio â rhwydwaith cenedlaethol o Fentrau Iaith i greu a rhannu adnoddau a chyfleoedd sy'n cefnogi dysgu a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn y gymuned leol ac ar-lein yn y gymuned ddigidol. Mae yna weithgareddau rhithwir, cwisiau, clybiau a fforymau ar gyfer y disgyblion Cymraeg, ac maen nhw'n cynnal digwyddiadau a gweithgareddau i blant, rhieni a theuluoedd sy'n darparu cyfleoedd a lleoliadau ychwanegol ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Mae Menter Iaith Casnewydd hefyd yn rhoi gofal ar ôl ysgol i ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg gyda chyfleoedd hwyliog i gymdeithasu, chwarae a meithrin hyder a balchder yn y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth mewn amgylchedd diogel, cyffrous a gofalgar. Cyn Covid-19, roedd clybiau'n gweithredu yn Ysgol Gymraeg Casnewydd ac Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon. Ym mis Medi 2020, ail-agorodd y clwb yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, a'r nod cyffredinol yw darparu clybiau ym mhob un o ysgolion cynradd Cymraeg Casnewydd.

Canlyniad 3: Mwy o ddisgyblion rhwng 14 a 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Mae carfan yr ysgol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cynnwys Blwyddyn 11 o fis Medi 2020, ac felly mae cwricwlwm llawn CA4 bellach yn cael ei ddarparu yn ôl y gofyn. Ar hyn o bryd mae 81 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a 77 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 11. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r Mesur Sgiliau Dysgu.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn elwa ar fuddsoddiad cyfalaf o dan raglen Band B Ysgolion y 21 Ganrif. Mae'r gwaith wedi dechrau ar y safle a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn nhymor y gwanwyn yn 2022.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Cytunwyd mai £16.5m oedd y gyllideb ar gyfer y gwaith cyfalaf hwn. Fodd bynnag, yn dilyn dylunio a thendro manwl, cynyddodd costau'r prosiect yn sylweddol, gan arwain at fwlch ariannu o £5.2m. Mae'r Cyngor, sy'n darparu cyfanswm cyllideb o £18.7m, wedi nodi cyllid ychwanegol o £2.2m. Y bwlch ariannu oedd canolbwynt yr ymarferiad lleihau gwerth peirianeg/cwmpas, ac o dan yr amgylchiadau, nid oedd dewis amgen dichonadwy ond i dynnu adeilad y neuadd chwaraeon o'r prosiect. Mae'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer neuadd yr ysgol hefyd wedi'i lleihau.

Rhannwyd hyn â'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr sydd wedi mynegi pryder y bydd y penderfyniad hwn yn golygu na fydd yr ysgol yn gallu cyflwyno cynnig cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 llawn, a bydd yn effeithio ar y gallu i wneud cynrychiadau i rieni, disgyblion ysgol clwstwr a'r gymuned ehangach. Byddai cael darpariaeth i ganiatáu i gwmnïau allanol berfformio drwy gyfrwng y Gymraeg o fudd i'r nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd y newidiadau hyn i'r prosiect yn arwain at ganlyniadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, llesiant disgyblion, cadw staff a recriwtio.

Canlyniad 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu'n seiliedig ar waith

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Bydd carfan yr ysgol yn cynnwys Blwyddyn 12 o fis Medi 2021 a Blwyddyn 13 o fis Medi 2022 ymlaen. Mae'r Pennaeth wrthi'n nodi'r myfyrwyr hynny sy'n debygol o fod yn mynd i addysg ôl-16 ar y safle i gadarnhau trefniadau'r cwricwlwm.

Mae trafnidiaeth ôl-16 yn wasanaeth yn ôl disgrisiwn y mae'r Cyngor yn ei ariannu am £150 y flwyddyn ar gyfer pob myfyriwr cymwys (o ran presenoldeb mewn ysgol neu goleg).

Mae Coleg Gwent wedi cadarnhau gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n ymgysylltu â gweithgareddau cyfoethogi a'r unedau a gwblhawyd yn Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i bandemig Covid-19. Rhwng 1 Medi 2019 a 6 Mawrth 2020, cynhaliwyd 827 o ddigwyddiadau i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â 208 ar gyfer y cyfnod o 9 Mawrth 2020 tan 31 Gorffennaf 2020. Roedd hyn yn ostyngiad amlwg yn enwedig pan, o dan amgylchiadau arferol, fydd nifer sylweddol o ddigwyddiadau yn cael eu hamserlenni i ddigwydd dros dymor yr haf.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i godi ymwybyddiaeth o fudd economaidd dysgu a defnyddio'r Gymraeg a ddysgwyd drwy astudio amrywiaeth o bynciau.
- Bydd yr ymchwil a gomisiynwyd gan y Cyngor i asesu'r ddarpariaeth hyfforddiant, a bylchau, ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn darparu sail i ddatblygu darpariaeth gyda rhanddeiliaid ac annog myfyrwyr i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Coleg Gwent wedi adrodd am gynlluniau i gefnogi ychwanegedd o ran unedau Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg ac i hwyluso amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Bydd gan sefydlu darpariaeth Ôl-16 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed oblygiadau cost sylweddol i'r ysgol. Dyrennir cyllid ôl-16 gan Lywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae'r nifer hwn o ddisgyblion yn debygol o fod yn fach yn y flwyddyn gyntaf, ac mae darparu cwricwlwm eang, hyd yn oed gyda chydweithio, yn mynd i fod yn her.

Mae'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr hefyd wedi mynegi pryder y bydd y buddsoddiad Band B is yn effeithio ar gynnig a darpariaeth y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 5, ac yn y pen draw gallai hyn arwain at lai o ddisgyblion a cholli staff profiadol.

Mae Coleg Gwent wedi cynghori na gyflwynwyd y sesiynau ychwanegedd arfaethedig yn nhymor yr haf 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Fodd bynnag, o fis Medi 2020, bydd pob dysgwr Gofal Plant Lefel 3 sydd wedi cofrestru ar Gampws Casnewydd yn cwblhau un uned lawn o'u prif gymhwyster yn ddwyieithog. Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos tystiolaeth o sut yr oeddent yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL
(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Data diwedd Cyfnod Allweddol
Mae Llywodraeth Cymru bellach yn disgwyl mai dim ond i gefnogi hunan-arfarnu y dylid defnyddio targedau ysgolion ac na ddylid eu hagregu i fesur perfformiad awdurdod lleol neu ranbarthol.

Siarter Iaith:
Mae pob un o ysgolion cyfrwng Gymraeg Casnewydd yn gweithio ar amcanion gwobr Aur, ac mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi mabwysiadu fframwaith Siarter Iaith.

Campws Cymraeg:
Mae 22 o ysgolion cynradd yn gweithio ar amcanion gwobr Arian ac mae 13 yn gweithio tuag at y wobr Efydd gychwynnol. Mae ysgolion uwchradd ar wahanol gamau o fabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol. Mae gan dair ysgol uwchradd Saesneg gynlluniau Siarter ffurfiol ar waith.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO
(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion a lleoliadau yn unol â blaenoriaethau gwella ysgolion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o hunan-arfarnu ac sy'n adlewyrchu sefyllfa a safbwyntiau presennol ysgolion a lleoliadau.
- Cefnogi ysgolion gyda'r agenda Parhad Dysgu ac adfer a datblygu medrau iaith er mwyn cynnal a chodi safonau yn yr hinsawdd sydd ohoni. Dylunio a modelu adnoddau a dulliau dysgu cyfunol, i gefnogi datblygiad llythrennedd a sgiliau iaith.
- Rhannu arfer gorau ar draws ysgolion gan fanteisio ar fodelau ysgol-i-ysgol a thrwy ddysgu proffesiynol.
- Darparu cefnogaeth barhaus i'r Siarter Iaith mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg drwy ddysgu proffesiynol, cymorth o ysgol i ysgol, a dilysu fel y bo'n briodol, gan symud ymlaen.
- Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion i'w helpu i wireddu Cwricwlwm i Gymru.
- Gweithgareddau ar-lein i blant a phobl ifanc yn ardal Casnewydd.
- Gweithgareddau chwaraeon wyneb yn wyneb.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwrch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Er mwyn cefnogi ysgolion drwy'r argyfwng Covid-19 cychwynnol, mae'r GCA wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid gan gynnwys Estyn a chydag ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth wybodus, ymchwil o bellter a dysgu cyfunol ac i ddatblygu a rhannu adnoddau a dulliau dysgu cyfunol ac o bell. Arweiniodd y gwaith hwn at lansio gwefan Dysgu Cyfunol ac o Bell GCA (Tach 2020) a chyfres o ddsbarthiadau Meistr Dysgu Cyfunol. Roedd dosbarthiadau meistr yn cynnwys sesiwn benodol ar gyfer ysgolion Cymraeg gyda dros 100 o gyfranogwyr rhanbarthol yn bresennol yn y digwyddiad Cymraeg.

Yn ogystal â chefnogi mentrau a yrrir gan GCA, mae tîm y Gymraeg mewn Addysg wedi gweithio'n helaeth gyda chydweithwyr traws-gonsortia a rhanddeiliaid addysg (gan gynnwys Estyn a NAEL) i ddatblygu cronfa o adnoddau dysgu cyfunol ac o bell sy'n cefnogi datblygiad parhaus sgiliau llythrennedd Cymraeg ym mhob cyfnod dysgu. Mae ystyried anghenion disgyblion sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg ac sy'n mynychu addysg Gymraeg wedi cl blaenoriaeth o ran gwaith datblygu. Cyrhaeddodd y gronfa o adnoddau yn agos at 150 o adnoddau dysgu o bell erbyn diwedd tymor yr Haf 2020. Mae cydweithio cenedlaethol yn parhau i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg gydag adnoddau'n cael eu datblygu'n barhaus. Mae ysgolion yn cael cyfle i ymgysylltu â'r gwaith fel partneriaid ymgynghorol ac mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith datblygu ar gyfer CA3 a CA4 ochr yn ochr â chyfoedion o bob rhan o Gymru. Mae'r cydweithio hwn ar draws consortia a chynnwys ysgolion wedi gweithio'n dda i nodi anghenion ac i dargedu datblygu adnoddau'n briodol.

Mae'r holl adnoddau ar gael drwy blatfform adnoddau Hwb i'w defnyddio gan ysgolion i gefnogi dysgu o bell. Mae adnoddau hefyd wedi'u rhannu drwy rwydweithiau Hwb GCA a thrwy gyfarfodydd rhwydwaith Penaethiaid Cymraeg a Chydlynwyr Llythrennedd lle mae'r ffocws bellach wedi symud o ddysgu o bell i'r cyfunol. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei rannu drwy ran Adnoddau Dysgu Cyfunol ac o Bell gwefan GCA a thrwy lwyfannau cenedlaethol.

Er bod y cymorth yn yr ysgol wedi'i oedi, mae hyn wedi aildechrau yn nhymor yr hydref. Er mwyn sicrhau diogelwch yr holl bartneriaid, mae ymagwedd cytbwys bellach rhwng datblygiadau parhaus adnoddau a modelu dysgu cyfunol, dysgu proffesiynol rhithwir a chymorth ysgol yn unol â hunanwerthuso a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae rhwydweithiau hanner tymhorol Penaethiaid Cymru wedi parhau i gynnull yn rhithwir i alluogi deialog barhaus ar safonau, dysgu cyfunol ac o bell a newidiadau i gymwysterau. Mae cyfarfodydd rhwydwaith Cydlynwyr Iaith wedi galluogi rhannu negeseuon allweddol ac arfer gorau gan Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu.

Mae'r gefnogaeth i'r Siarter Iaith a Cymraeg Campus yn parhau, ond mae'r broses o wirio cynnydd tuag at wobrau Aur/Arian/Efydd wedi'i rhewi i'w hadolygu yng Ngwanwyn 2021. Mae gan y Siarter Iaith rôl ganolog i'w chwarae o ran cynnal sgiliau iaith, yn enwedig i ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg.

Mae ymagwedd y CGA wedi bod ar rannu arfer gorau mewn dulliau adfer iaith (gan gynnwys drilio a datblygu a defnyddio geirfa a phatrymau iaith) mewn partneriaeth a YRhd ac arweinydd rhanbarthol y Siarter iaith. Mae'r CGA hefyd wedi datblygu cyfres o adnoddau i gefnogi rhieni.

Cynradd:

Cymraeg: <https://spark.adobe.com/page/HsK8VRP1o2Mwk/>

Saesneg: <https://spark.adobe.com/page/jukWji7b3NMHa/>

Uwchradd:

Cymraeg: <https://spark.adobe.com/page/W0RV3W0FbrE11/>

Saesneg: <https://spark.adobe.com/page/Opwl1woGoSu3x/>

Bydd ffocws o'r newydd ar Gymraeg Campus yn nhymor y Gwanwyn i sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal. Mae adolygiad gan Lywodraeth Cymru o Fframwaith a Dull Gweithredu'r Siarter wedi'i gyhoeddi. Bydd y CGA yn cefnogi'r ymateb i ganfyddiadau adolygiad y Siarter.

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Bartneriaeth Gymunedol gyda Dreigiau Casnewydd Gwent i godi proffil y Gymraeg mewn cymunedau lleol ac amrywiol a thrwy amrywiol ffrydiau addysg. Nod y prosiect yw datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau arwain a gweithio mewn tîm tra'n defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a'r bwriad yw y bydd hyn yn dangos ac yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith fyw y tu allan i faes addysg a gwaith. Yn anffodus, nid yw hyn wedi datblygu yn ôl y bwriad oherwydd Covid-19, ond aeth prosiect yn ei flaen gyda disgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i gefnogi Gŵyl Newydd.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r Urdd wedi gohirio gweithgareddau cymunedol a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2020. Fodd bynnag, hwyluswyd rhai sesiynau digidol cenedlaethol, a'r gobaith yw y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar lefel leol cyn bo hir i ategu gwaith cymunedol. Fodd bynnag, mae gwaith y Swyddog Ieuenctid wedi parhau, gyda'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ac mae Clybiau Chwaraeon yr Urdd wedi ail-ddechrau. Ar ddechrau 2021, bydd yr Urdd yn cynnig pecyn o weithgareddau i ysgolion i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r Urdd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid ar ddarpariaeth ieuenctid Cymraeg yn yr ardal a bydd clwb ieuenctid Cymraeg digidol newydd yn dechrau yn 2021. Bydd pob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn gallu cael mynediad i weithgareddau amrywiol drwy'r Rhaglen Cymraeg Pob Dydd.

Canlyniad 6: Darpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Nid oes unrhyw ddata blynyddol i'w adrodd o ran y maes canlyniadau hwn.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Sefydlu grŵp ADY rhanbarthol i weithio gydag Arweinydd Trawsnewidiol ADY i fynd i'r afael â Darpariaeth ADY Cymraeg, gan gynnwys Protocol Symud a Reolir.
- Sicrhau bod darpariaeth ar gyfer sefydlu CAD o fewn ystâd yr ysgolion cynradd Cymraeg.
- Cefnogi'r grŵp ADY rhanbarthol i weithio gydag Arweinydd Trawsnewidiol ADY i edrych ar ffyrdd y gall gweithio rhanbarthol gefnogi disgyblion ag ADY sy'n cyrchu addysg Gymraeg.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Mae Protocol Symud a Reolir Cynradd wedi'i ddatblygu ar gyfer pob clwstwr Ysgol Gynradd ledled Casnewydd, gan gynnwys y clwstwr Cymraeg. Mae trafodaeth gychwynnol wedi'i chynnal gyda Phenaethiaid Cynhwysiant y pum ALI ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru er mwyn cytuno i gydweithio ar brotocol Symud Wedi'i Reoli rhanbarthol, ond oherwydd Covid-19 nid yw'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu eto.

Penderfynwyd ar y cynnig i sefydlu ysgol Gymraeg newydd yng Nghasnewydd ym mis Mehefin 2020, ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau bod yr ysgol hon yn gallu agor yn ôl y bwriad ym mis Medi 2021. Mae'r cynnig yn cynnwys sefydlu darpariaeth CAD cynradd Cymraeg, er na fydd hyn yn cael ei gyflwyno nes bydd yr ysgol yn symud i'w lleoliad parhaol ym mis Medi 2023.

Mae'r Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Cynhwysiant) wedi galluogi'r Seicolegydd Addysg sy'n gysylltiedig â'r clwstwr Cymraeg i fanteisio ar gwrs Cymraeg i ehangu ei gwybodaeth o'r Gymraeg. Mae grŵp Cynhwysiant SEWC hefyd wedi trafod archwilio cyfleoedd i rannu adnoddau ar draws y rhanbarth, megis Seicolegwyr Addysg sy'n siarad Cymraeg.

Trwy waith Trawsnewid ADY, nodwyd adnoddau ADY penodol a byddant yn cael eu prynu ar gyfer pob clwstwr Cymraeg ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ohirio yn rhannol oherwydd Covid-19 ac yn rhannol oherwydd ymddeoliad arweinydd allweddol ym mis Medi 2020.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

(Ile bo'n bosibl, nodwch a yw'r data'n dangos cynnydd / gostyngiad o ran % ers y cyfnod adrodd blaenorol)

Mae'r ALI yn cadw data a gesglir drwy'r arolwg SWAC o ran sgiliau iaith ymarferwyr. Mae'r GCA wedi casglu data lleol sy'n benodol i'r ysgol ar anghenion hyfforddiant iaith a methodoleg staff. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i dargedu ysgolion ac ymarferwyr.

Cynllun Sabothol - Rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn (14 lle ar gael i bob rhanbarth bob blwyddyn):

- Mynychodd un athro yng Nghasnewydd gan gwblhau Rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn 2019-20 a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru
- Mae dau athro o Gasnewydd yn mynychu Rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn 2020-2021 a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd

Dros y tair blynedd diwethaf, mae chwech o athrawon Casnewydd wedi cofrestru ar hyfforddiant Cymraeg mewn Blwyddyn.

GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

(rhestrwch y camau gweithredu arfaethedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddariad/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)

- Darparu rhaglen ranbarthol barhaus o ddysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad iaith a methodoleg sy'n gysylltiedig ag angen. Darparu hyfforddiant iaith arbenigol a gweithio gyda chymunedau ysgolion drwy'r model YRhD (Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Gynradd y Gaer) i rannu arfer gorau mewn addysgu a dysgu.
- Cefnogi dealltwriaeth ac asesiadau personol cywir yn erbyn disgrifiadau'r Fframwaith Cymwyseddu iaith Cenedlaethol gan sicrhau bod dysgu proffesiynol rhanbarthol yn nodi'n glir ffocws/lefel sgiliau pob digwyddiad hyfforddiant iaith.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i deilwra a gweithredu modelau Cynllun Sabothol yn y dyfodol a chefnogi recriwtio.
- Darparu cymorth dilynol i fynychwyr y Cynllun Sabothol, a gweithio gyda mynychwyr y Cynllun Sabothol, yn enwedig graddedigion Cymraeg mewn Blwyddyn i feithrin gallu drwy'r clwstwr rhanbarthol a'r model YRhD
- Darparu dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chontinwmm iaith LIC i helpu ysgolion i wireddu Cwricwlwm i Gymru.

CYNNYDD / DIWEDDARIAD / PWYSAU

(defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)

Mae cymharu data dysgu proffesiynol 2018-19 a 2019-20 yn heriol oherwydd effaith Covid-19 ar anghenion dysgu proffesiynol, argaeledd staff sy'n gweithio yn y normal newydd a phwysau ar ryddhau athrawon.

Mae dysgu proffesiynol wedi'i gynnal gyda nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal yn ystod tymor yr haf 2020, er bod presenoldeb yn amrywio oherwydd pwysau Covid:

- 16 o ddigwyddiadau iaith a methodoleg wedi'u targedu at ymarferwyr yn y cam cynradd (Saesneg) - 35 o gyfranogwyr o ysgolion Casnewydd
- 2 Ddigwyddiad rhwydwaith Penaethiaid Cymraeg (1 x cyfrwng Cymraeg ac 1 x cyfrwng Saesneg) - 1 ysgol uwchradd Gymraeg ac 1 ysgol uwchradd Saesneg o Gasnewydd wedi cymryd rhan.
- 1 Digwyddiad Cydlynnydd Llythrennedd (Cymraeg).

Er bod dysgu rhithwir cydamserol, wyneb yn wyneb ar gael, roedd rhestr chwarae dysgu proffesiynol hefyd ar gael i staff (ymarferwyr Saesneg a Chymraeg) i gefnogi datblygiad sgiliau iaith personol a rhannu gwybodaeth am offer gwirio iaith a gramadeg, yn ystod tymor yr haf 2020.

<http://bitly.ws/8GJF> (Saesneg)

<http://bitly.ws/8GJm> (Cymraeg)

Mae dysgu proffesiynol yn nhymor yr hydref wedi parhau drwy gyfleoedd wyneb yn wyneb cydamserol ond mae'r holl hyfforddiant methodoleg a chyflwyniadau mewn digwyddiadau rhwydwaith hefyd ar gael i bob athro CGA yn anghydamserol drwy recordiadau Gweminar.

- 4 x Penaeth y Gymraeg (2 x cyfrwng Saesneg a 2 x cyfrwng Cymraeg)
- 1 x Cyfarfod rhwydwaith cydgysylltwyr llythrennedd
- 1 x Cyfarfod rhwydwaith cydlynwyr Siarter (cyfrwng Cymraeg) ac 1 x digwyddiad clwstwr Siarter
- 23 o ddigwyddiadau iaith a methodoleg wedi'u targedu at ymarferwyr yn y cyfnod cynradd (cyfrwng Saesneg)

Mae rhaglenni hyfforddi sabothol wedi'u gohirio ar hyn o bryd ac mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynllunio ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol yng ngoleuni'r argyfwng presennol. Mae rhaglen Cymraeg mewn Blwyddyn 2019-20 yn mynd rhagddi drwy fodel dysgu cyfunol gyda dau gyfranogwr o Gasnewydd yn cymryd rhan. Data ar ymgysylltu cydamserol yn cael ei goladu ar hyn o bryd. Mae pob ymarferydd sydd wedi cwblhau'r cynllun Cymraeg mewn Blwyddyn wedi derbyn cyllid ychwanegol gan y GCA er mwyn parhau â'u taith yn yr iaith Gymraeg a datblygu prosiectau a ffrydiau gwaith a fydd yn adeiladu ar gyfalaf ieithyddol. Mae'r grant ychwanegol yn amodol ar delerau ac amodau a chaiff y rhain eu monitro trwy ymweliadau cymorth ac arweiniad penodol gan GCA. Hyd yn hyn, mae'r GCA (trwy ymweliadau dilynol a chyfarfodydd rhwydwaith a hwyluswyd gan dîm Cymru) yn gallu adrodd bod ymarferwyr wedi:

- Datblygu prosiectau yn yr ysgol i gefnogi'r iaith Gymraeg. Maent wedi datblygu a threialu gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm (Cwricwlwm i Gymru) ac wedi darparu hyfforddiant iaith a methodoleg mewnol. Maent hefyd wedi gwneud cynnydd gyda gwobr Cymraeg Campus.

- Maent wedi rhannu arfer gorau yn y Rhwydwaith Sabothol rhanbarthol lle y bydd ymarferwyr yn ymgynnull gyda holl gyfranogwyr y Cynllun Sabothol yn y gorffennol (pob cwrs Sabothol) a chydweithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, i rannu ymagweddau at ddatblygu mewnol ac mewn clwstwr, a rhannu adnoddau sydd newydd eu datblygu.
- Darparu hyfforddiant iaith i Gynorthwywyr Addysgu o fewn eu clystyrau. Mae'r GCA wedi coladu tystiolaeth o ymatebion Cynorthwy-wyr Addysgu i hyfforddiant clwstwr a ddarperir gan ymarferwyr a choladwyd adborth cadarnhaol e.e. clwstwr Bassaleg
- Cafodd ymarferydd o Ysgol Gynradd Maendy ei benodi fel Hyrwyddwr Sabothol GCA ar gyfer 2020-21 ac mae'n gweithio gyda'r GCA i ddatblygu a chynllunio ymhellach yr ymagwedd at ddatblygu'r Gymraeg drwy syniadau/themâu mawr yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi pob un o'r Graddedigion Sabothol i archwilio ymagweddau cynllunio ymhellach yn dilyn ymarfer rhannu a thrafodaeth yn Rhwydwaith Sabothol GCA.
- Hefyd mae ymarferwyr Sabothol wedi buddsoddi ymhellach yn eu taith iaith personol ar ôl cwblhau eu Blwyddyn Sabothol (e.e. Ysgol Gynradd Maendy - Cwrs Uwch)
- Mae Penaethiaid o ysgolion a ariennir yn ymgysylltu'n llawn â disgygliadau rhaglenni a thelerau ac amodau grant ac yn rhoi adborth cadarnhaol ar effaith y cynllun ar eu hysgolion.

Mae Ysgol Gynradd Alway wedi bod yn Ysgol Rhwydwaith Dysgu ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg am y ddwy flynedd academaidd diwethaf (2017-19) Mae'r Pennaeth wedi gweld yn uniongyrchol sut mae'r cynllun sabothol (Cymraeg mewn Blwyddyn a chynllun sabothol 3 mis) wedi effeithio'n gadarnhaol ar ethos a datblygu safonau darpariaeth Gymraeg yn yr ysgol ac mae'n parhau i anfon staff ar Gymraeg mewn Blwyddyn a cynlluniau sabothol o ganlyniad.

Mae pwysau cynyddol i recriwtio athrawon uwchradd Cymraeg yn bryder sylweddol ac mae angen ymateb rhanbarthol a chenedlaethol brys arnynt.

Mae'r Cyngor wedi comisiynu gwaith, a ddechreuodd eleni, i ddeall y bylchau mewn addysg/hyfforddiant Cymraeg sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gyrfa yn y sector gofal plant/blynyddoedd cynnar, gyda'r nod o wneud cyfres o argymhellion i ymateb i'r rhain. Mae'r prosiect wedi profi rhywfaint o oedi oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ond mae'n parhau i gael ei ddatblygu.

Gan weithio gyda Gyrfa Cymru, mae'r Cyngor wedi helpu i ddatblygu nifer o flogiau a sgysiau i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle a fydd yn helpu pobl i gael swyddi a chael gwaith a dangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle. Bwriedir i hyn gefnogi digwyddiadau gyrfaedd i annog disgyblion i chwilio am waith a fydd yn datblygu eu sgiliau iaith.

CERRIG MILLTIR EDRYCH TUAG YMLAEN	<p><i>Sicrhau bod yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn agor yn ôl y bwriad; Cefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth ar draws y Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin; Adolygu'r dulliau presennol o hyrwyddo ac ysgogi'r galw am addysg Gymraeg; Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) newydd ar gyfer Casnewydd.</i></p>
Awdur:	Deborah Weston, Rheolwr Gwasanaeth (Cynllunio ac Adnoddau Addysg)
Cymeradwy-ydd:	Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg a Chadeirydd Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd
Dyddiad	17 Rhagfyr 2020